



Ysgol Dinas Brân

SUCCESS THROUGH EFFORT
LLWYDDIANT DRWY YMDRECH

Medi 24ain, 2021

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Yn anffodus, gyda thristwch mawr eto eleni, ni fyddwn yn cynnal digwyddiad noson agored byw. Yn Ysgol Dinas Brân, rydym yn ymfalchïo'n fawr yn y ffaith ein bod yn gwneud yr hyn sydd orau er diogelwch ac addysg ein myfyrwyr, a hefyd ein bod yn chwarae ein rhan i gadw ein cymuned leol yn ddiogel.

Mae'r myfyrwyr bellach wedi dychwelyd ac maent yn cael profiad llawer gwell o gael mynediad i'r cwricwlwm llawn, ac i ystafelloedd arbenigol. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud ein gorau glas er mwyn ei gadw felly. Nid ydym am orfod ailgyflwyno mesurau a fydd heb os, yn cael effaith negyddol ar addysg a lles myfyrwyr.

Rydym wedi amgáu prosiectws ond rydym hefyd yn falch o gyhoeddi y bydd ein **hwythnos agored rithiol** yn dechrau **Ddydd Llun Medi 27ain, 2021** lle byddwn yn lansio fideo byr iawn bob dydd sy'n arddangos popeth yr ydym yn ei wneud. Gellir gweld yr wythnos agored rithiol drwy ein tudalen Facebook a gwefan yr ysgol.

Byddem wrth ein bodd petaech yn ein dilyn ar Facebook lle cewch eich diweddarau'n gyson ar fywyd ysgol yn Ysgol Dinas Brân.

Yr wythnos hon 'rydym wedi bod yn dathlu **'Wythnos Ewch yn Wyrdd'** ac yn arddangos y prosiect Solar/Gwresogi/Goleuo newydd yr ydym wedi buddsoddi £240,000 ynddo. Y gobaith ydy y bydd hyn yn sicrhau y bydd ein hôl troed carbon yn gostwng **72 tunnell garbon** y flwyddyn, yn ogystal ag arwain at arbedion i'r ysgol yn y dyfodol.

Ar ein tudalen Facebook, byddwch hefyd yn gallu gweld lluniau a fideos o'n **diwrnodau gweithgareddau sefydlu Blwyddyn 7** hynod lwyddiannus. Bu'r myfyrwyr yn gweithio fel tîm i wneud gweithgareddau megis adeiladu rafftau, caiacio a dringo creigiau. Heb os, mae ein myfyrwyr Blwyddyn 7 wedi ymgartrefu'n eithriadol o dda ac rydym yn falch o'r dechrau gwych y maent wedi'i wneud. Edrychwn ymlaen at groesawu ein Blwyddyn 7 newydd y flwyddyn nesaf.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgol, rydym yn fwy na pharod i helpu gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych. Mewn amgylchiadau arbennig fe allwn drefnu cyfarfod, a'i gynnal yn yr ysgol.

Yn Ysgol Dinas Brân, 'rwy'n falch iawn o'r staff a'r myfyrwyr sydd wedi gweithio gyda'i gilydd yn yr ysgol a thrwy wersi rithiol. Mae'r staff wedi darparu addysgu a gofal bugeiliol rhagorol yn ystod amgylchiadau anodd iawn.

Mae hyn yn crynhoi ein gwerthoedd yn Ysgol Dinas Brân ac edrychwn ymlaen i chi ymuno â chymuned ein hysgol y flwyddyn nesaf.

Mark Hatch

Pennaeth

Pennaeth Headteacher: **Mr Mark Hatch** Cadeirydd y Llywodraethwyr Chair of Governors: **Mr Mark Valentine**



Ysgol Dinas Brân

SUCCESS THROUGH EFFORT
LLWYDDIANT DRWY YMDRECH

24th September, 2021

Dear Parent/Carer,

It is with great sadness that unfortunately again this year we won't be having a live open evening event. At Ysgol Dinas Brân, we take great pride in doing what is best for our students' safety and education and also play our part in keeping our local community safe.

Students have now returned and are having a much better experience accessing the full curriculum and specialist rooms. It is essential that we do our utmost in order to keep it that way. We do not want to have to reintroduce measures which will have a negative impact on students' education and wellbeing.

We have enclosed a prospectus but we are also proud to announce our **virtual open week** starting on **Monday 27th September, 2021** in which we will launch a very short video each day which showcases all that we do. The virtual open week can be accessed through our Facebook page and school website.

We would love you to follow us on Facebook where you will be constantly updated on school life within Ysgol Dinas Brân.

This week we have been celebrating **Go Green week** and showcasing our new Solar/Heating/Lighting project in which we have invested £240,000. This will ensure our carbon footprint will be reduced by **72 carbon tonnes a year** and will also lead to the savings for the school in future years.

On our Facebook page, you will also be able to see pictures and videos from our successful **Year 7 Induction activities** days. Students were team building by doing activities such as raft building, kayaking and rock climbing. Our Year 7 students have settled in extremely well and we are proud of the fantastic start they have made. We look forward to welcoming our new Year 7 next year.

If you would like any further information then please contact the school, we are more than happy to help with any questions you may have. In special circumstances we can arrange for a meeting to be held in school.

At Ysgol Dinas Brân, I am very proud of the staff and students who have worked together both in school and through virtual lessons. Staff have provided excellent teaching and pastoral care through very difficult circumstances.

This epitomises our values in Ysgol Dinas Brân and we look forward to you joining our school community next year.

Mark Hatch

Headteacher

Pennaeth Headteacher: **Mr Mark Hatch** Cadeirydd y Llywodraethwyr Chair of Governors: **Mr Mark Valentine**